# Pwyllgor Rheoli Datblygu

**5 Mawrth 2025**

Yn bresennol
Dr M Havard (Cadeirydd)
Cynghorydd M Bowen, Cynghorydd D Clements, Cynghorydd T Evans, Cynghorydd C George, Cynghorydd Dr SL Hancock, Dr R Heath-Davies, Mrs S Hoss, Cynghorydd M James, Mr GA Jones, Cynghorydd S Skyrme-Blackhall, Dr RM Plummer, Cynghorydd B Price, Cynghorydd V Thomas, Cynghorydd A Tinley, Cynghorydd M Wiggins a'r Cynghorydd C Williams.

Swyddogion yn bresennol
Mrs K Attrill, (Rheolwr Rheoli Datblygu), Mr C Felgate (Cyfreithiwr), Ms B Gledhill (Swyddog Cynllunio), Mr M Kent (Swyddog Monitro), Mrs S Morris (Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu), Mrs C Llewellyn (Cofnodion)

[Cyfarfod rhithiol 10.00am – 11.20am;
11.30am – 1.15pm]

**1. Ymddiheuriadau**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Mrs J James.

2. **Datgelu buddiant**

Datgelodd yr Aelod(au)/Swyddog(ion) canlynol yn y cais (ceisiadau) a/neu'r mater (ion) y cyfeirir atyn nhw isod:

| **Cais a Chyfeirnod** | **Aelod(au)/Swyddog(ion)** | **Gweithred** |
|---|---|---|
| Datganiad cyffredinol | Dr R Plummer | Aros yn y cyfarfod a chymryd rhan lawn yn y trafod a'r pleidleisio |
| Cofnodion 6(b) isod NP/24/0454/FUL Newid defnydd o uned storio bad achub i allfa bwyd-i-fynd (A1) – Hen Storfa Bad Achub, Harbwr Dinbych-y-Pysgod, Dinbych-y-Pysgod. | Cynghorydd S Skyrme-Blackhall | Aros yn y cyfarfod a chymryd rhan lawn yn y trafod a'r pleidleisio |

**3. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 29 Ionawr 2025 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

Yn dilyn cynnig gan y Cynghorydd James, wedi'i eilio gan y Cynghorydd Skyrme-Blackhall, **penderfynwyd** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2025.

**Nodwyd.**

4. **Dyletswyddau'r Aelodau wrth Benderfynu Ceisiadau**

Roedd adroddiad y Cyfreithiwr yn crynhoi swyddogaeth y Pwyllgor oddi fewn i'r gyfundrefn gynllunio, gyda phwyslais penodol ar amcanion a dyletswydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Roedd yn mynd yn ei flaen i amlinellu pwrpas y gyfundrefn gynllunio ac ystyriaethau perthnasol wrth benderfynu, ac ychwanegodd y Cyfreithiwr bod angen rhoi ystyriaeth hefyd i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol - Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru ar 24 Chwefror 2021 yn ogystal â'i Gynllun Datblygu Lleol 2 ei hun. Roedd yr Adroddiad hefyd yn nodi bod gan yr Awdurdod ddyletswydd hefyd i gyflawni datblygiad cynaliadwy, ystyriaethau ecolegol oedd yn cynnwys swyddogaeth Deddf Amgylchedd Cymru 2016, ystyriaethau hawliau dynol, canllawiau'r Awdurdod i aelodau ynghylch penderfyniadau yn y Pwyllgor, a hefyd yn gosod allan rhai amgylchiadau lle gellid gosod costau yn erbyn yr Awdurdod mewn apêl. Yn olaf, ychwanegodd y Cyfreithiwr nad oedd yr adroddiad yn dweud bod penderfyniadau yn agored i gael eu scrwtineiddio gan y llysoedd ac y gallai hynny arwain at adolygiad barnwrol a'i bod felly yn bwysig eu bod yn gyfreithiol seiliedig.

**Nodwyd.**

5. **Hawl i siarad yn y Pwyllgor**

Hysbyswyd yr Aelodau gan y Cadeirydd bod rhybuddion priodol (cyn y dyddiad sydd wedi ei nodi) wedi dod i law oddi wrth bartïon a oedd yn dymuno defnyddio eu hawl i siarad yn y cyfarfod y diwrnod hwnnw. Yn unol â phenderfyniad Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2011, wedi'i ddiwygio 16 Mehefin 2021, rhoddir yr hawl i siaradwyr i annerch am bum munud oni bai eu bod wedi siarad ar yr un cais cynt pan roddir tri munud iddyn nhw i gyflwyno gwybodaeth o'r newydd. *(mae'r partïon oedd â diddordeb wedi'u rhestru isod gyferbyn â'u cais (ceisiadau) penodol, ac yn y drefn y buon nhw'n cyfarch y Pwyllgor):*

| Rhif cyfeirnod | Cynnig | Siaradwr |
|---|---|---|
| NP/24/0567/FUL Cofnod 6(a) cyfeir | Dymchwel yr adeilad toiledau/ cawodau/ storfa/ golchdy presennol (gwaredu'r carafanau teithiol ar gyfer derbynfa) i safle arall y tu allan i'r parth llifogydd, ac ehangu'r safle drwy godi adeilad toiledau/ cawodau/ storfa/ golchdy/ derbynfa a gwelliannau ecolegol a thirweddu (diwygiadau i'r cais NP/23/0534/FUL a wrthodwyd) – Parc Gwyliau Arfordir Niwgwl, Maes Gwersylla Niwgwl, Niwgwl, | Mr Mike Harris (Ymgeisydd) |
| NP/24/0454/FUL Cofnod 6(b) cyfeir | Newid defnydd o uned storio bad achub i allfa bwyd-i-fynd (A1) – Hen Storfa Bad Achub, Harbwr Dinbych-y-pysgod, Dinbych-y-pysgod. | Mr Alistair Mackay (ar ran Clwb Hwylio Dinbych-y-pysgod) - gwrthwynebydd<br>Ms Ruby Goodrick – Ymgeisydd |

6. **Adroddiad Ceisiadau Cynllunio**
Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau manwl yr Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu, ynghyd ag unrhyw ddiweddariadau a adroddwyd ar lafar ar y diwrnod ac sydd wedi'u cofnodi isod. Penderfynodd y Pwyllgor y ceisiadau yn y modd canlynol (*nodir y penderfyniad ynghylch pob un yn dilyn y manylion a nodir am y cais perthnasol*):

(a) Cyfeirnod: NP/0567/FUL
Cynnig: Dymchwel yr adeilad toiledau/ cawodau/ storfa/ golchdy presennol (gwaredu'r carafanau teithiol ar gyfer derbynfa) i safle arall y tu allan i'r parth llifogydd, ac ehangu'r safle drwy godi adeilad toiledau/ cawodau/ storfa/ golchdy/ derbynfa a gwelliannau ecolegol a thirweddu (diwygiadau i'r cais NP/23/0534/FUL a wrthodwyd)
Lleoliad: Parc Gwyliau Arfordir Niwgwl, Maes Gwersylla Niwgwl, Niwgwl, Hwlffordd, Sir Benfro, SA62 6AS

Adroddwyd bod y cais hwn yn gofyn am ganiatâd i osod bloc cyfleusterau ar safle gerllaw gorlifdir ar faes gwersylla Niwgwl.

Roedd cais blaenorol ar gyfer yr un lleoliad wedi'i wrthod yn 2024.

Oherwydd y posibilrwydd o ddwysau defnydd ar hyd gorlifdir, ac am fod yr adeilad a awgrymir yn cael ei ystyried yn anghydymdeimladol o ran y tirlun cyfagos, a'r effeithiau gweledol o ganlyniad ar nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol, yr argymhelliad oedd gwrthod caniatâd cynllunio.

Yn y cyfarfod esboniwyd hanes y safle gan y swyddog a nodwyd bod union safle'r cais cyfredol y tu hwnt i'r parth llifogydd a pharth newid arfordirol. Roedd dyluniad yr adeilad wedi'i symleiddio ers yr un blaenorol ond er nad oedd yna fawr mwy o gyfleusterau yn yr arfaeth nag oedd yno ar hyn o bryd, roedd yr adeilad yn hirach o ganlyniad i ddarparu derbynfa. Nodwyd nad oedd lloriau'r carafanau ategol wedi'u cyfrif oddi fewn i ffigwr y gofod llawr presennol am nad oedd y rhain, ar hyn o bryd, wedi'u hawdurdodi.

Atgoffwyd yr aelodau o gynnwys adroddiad Addasiad Arfordirol Niwgwl sy'n cynghori bod cynllun rheoli'r ffordd wedi arwain at osod y marian graean bras mewn safle annaturiol, a phan gafodd y ffordd ei hail-gyfeirio, roedd y marian yn debygol o osod ei hun ar draws y ffordd, ac o bosib bydd ei uchder yn gostwng, gan arwain at effaith gweledol pellach a phosibilrwydd o lifogydd cynyddol. Fodd bynnag, cydnabyddid bod adroddiad Atkins Realis yn awgrymu y gallai'r marian graean symud ond heb ei ddifrodi. Ond ychydig o bwys oedd wedi'i roi i'r adroddiad am nad oedd yn rhan o Bolisi.

O ran diweddariadau, cynghorodd y swyddog nad oedd gwybodaeth bellach wedi dod i law wrth yr ymgeisydd, ac, felly, byddai ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn cael ei ystyried fel gwrthwynebiad am na chafwyd asesiad effaith tirluniol. Nododd hefyd bod nifer o e-byst wedi dod i law wrth yr ymgeisydd a'i asiant ac fe ddeliodd â'u pryderon ar lafar trwy ddweud bod sylwadau'r Swyddog Coed a Thirwedd yn ymwneud â phlannu yn unig ac nad oedd yn cyfeirio at y tirlun ehangach. Ychwanegodd bod y sylwadau a nodwyd yn y llythyrau o gefnogaeth wedi'u crynhoi yn yr adroddiad. Eglurodd y gallai dwysau defnydd ddigwydd o ganlyniad i symud yr adeilad cyfleusterau y tu hwnt i'r parth llifogydd, ac y byddai ar gael am gyfnod hirach yn ystod y flwyddyn, tra byddai'r gwersyllfan a'i ddefnyddwyr yn dal oddi fewn i'r parth llifogydd. Roedd hi'n ystyried y byddai hyn yn berygl ychwanegol i'r rheiny yn y pebyll am nad oedd y mater wedi'i ystyried fel rhan o asesiad canlyniadau llifogydd yr ymgeisydd.

Mewn ymateb i'r datganiad mai mater o ddehongliad oedd y defnydd atodol o ddwy garafán, anghytunodd y swyddogion am fod y dystysgrif cyfreithlondeb ar gyfer y safle yn unig, ac nid ar gyfer y carafanau atodol. Eglurwyd y byddai'n bosib eu defnyddio tra bo'r safle mewn defnydd ond

dylid eu gwaredu ar adegau eraill; byddai angen caniatâd cynllunio er mwyn eu defnyddio ar gyfer unrhyw bwrpas arall. Doedd darparu derbynfa barhaol er mwyn cynorthwyo i sicrhau cefnogaeth Croeso Cymru ddim yn fater y gellid rhoi iddo fawr o bwys, a doedd budd economaidd achrediad o'r fath ddim yn gorbwyso materion cynaladwyedd a'r effaith weledol ar y tirlun. Doedd yna ddim pryder ynghylch effaith y gwersyllfan ar wasanaethau mewn canolfannau gerllaw, a doedd hi ddim yn bosib cymharu'r sefyllfa gyda'r apêl y cyfeiriwyd ato yn llythyr diweddaraf yr ymgeiswyr am nad oedd cyfeirnod wedi'i ddarparu.

Mewn ymateb i gwestiynau'r Aelodau eglurodd y swyddogion nad oedd unrhyw wybodaeth wedi dod i law ynghylch goleuo, ond fe fyddai amod goleuo cadarn yn cael ei osod fel rhan o ganiatâd a dywedwyd bod hoedl debygol adeilad preswyl fel arfer yn cael ei ystyried yn 100 mlynedd, (ac y byddai'n gwirio hoedl adeilad masnachol) ac roedd y swyddogion yn pryderu bod hynny'n hirach na hoedl y safle; cynaladwyedd oedd un o'r rhesymau dros wrthod caniatâd. Holodd yr Aelodau ynghylch y Cynllun Rheoli'r Draethlin ac fe'u cynghorwyd bod cryn bwysau yn cael ei roi ar hyn gan dynnu sylw'r Aelodau at baragraff 2.1.29 o'r adroddiad a oedd yn gosod allan y safbwynt presennol ac yn y dyfodol fel roedd wedi'i amlinellu yn y ddogfen. Cadarnhaodd y swyddogion hefyd bod y lleiniau oedd ar y safle wedi'u caniatáu o dan ddau gais arwahan (NP/98/0349 Cais Tystysgrif Cyfreithlon ar gyfer defnydd o'r safle gwersylla ar gyfer pebyll a cherbydau cartref ac NP/12/0571/FUL ar gyfer newid defnydd o 30 o leiniau pebyll a cherbydau cartref i 30 o leiniau unedau teithio), ond roedd yr unedau i gyd wedi'u lleoli oddi fewn i'r parth llifogydd. Yn olaf, eglurwyd bod y marian graean yn cael ei reoli gan Gyngor Sir Penfro fel Awdurdod Priffyrdd ac roedden nhw wedi cynghori na fydden nhw'n ei gynnal y tu hwnt i 2030.

Anerchwyd y Pwyllgor gan yr ymgeisydd, Mike Harris, wedyn. Esboniodd ei fod yn berchen y gwersyllfan er 2018 a'i fod wedi buddsoddi ei gynilion, ei egni a'i angerdd mewn hyrwyddo Niwgwl fel cyrchfan dwristiaeth. Nododd ei fod wedi anfon cwyn ffurfiol at yr Awdurdod ynghylch amhleidioldeb adroddiad y Pwyllgor ac y byddai'n dymuno i'r Awdurdod ohirio ei ystyriaeth o'r cais.

Esboniodd Mr Harris bod angen caniatâd cynllunio i sicrhau dyfodol tymor hir y gwersyllfan ac mai hwn oedd y pedwerydd cais yn chwennych adleoli'r cyfleusterau presennol, oedd wedi hen ddyddio, i'w gosod y tu hwnt i'r parth llifogydd. Credai fod y cynnig yn adleoli adeilad oedd wedi hen ddyddio ac yn salw, y tu hwnt i'r parth llifogydd, ymhellach o'r ffordd a'r traeth ac i safle lle na fyddai'n amlwg, yn unol â Pholisi 37.

Dywedodd fod 10 o'r 11 o ymgynghorwyr statudol heb fynegi gwrthwynebiad cyhyd ag y byddai amodau yn cael eu cadw, gan gynnwys

CNC nad oedd yn gwrthwynebu'r cynlluniau adleoli. Cyfeiriodd at wrthwynebiad Cyngor Cymuned Noltwn a'r Garn gan nodi bod yr adeilad arfaethedig mewn gwirionedd yn llai pan gynhwysid gofod llawr y treilerau presennol. Nododd Mr Harris bod dyluniad y cynnig wedi'i ddiwygio er mwyn adlewyrchu golwg amaethyddol a thra byddai i'w weld o rai mannau ar y traeth ni fyddai i'w weld o'r môr. Nododd bod prosiect Encast Cyngor Sir Penfro wedi cadarnhau y byddai'r safle yn dal yn bosib defnyddio'r safle am 40-100 mlynedd eto. Ni fyddai'r safle yn cael ei ymestyn na'i fasnacheiddio o ganlyniad i'r adeilad arfaethedig ac roedd wedi ymrwymo i ddiogelu'r tirlun yn Niwgwl, a darparu gwell cyfleusterau atal llifogydd ar gyfer ymwelwyr, a pharhad hyfywedd y gwersyll.

Terfynodd Mr Harris trwy ddweud y byddai gwrthod y cais yn condemnio busnes oedd wedi bod ar y parth llifogydd ers 90 mlynedd a gofynnodd i'r Pwyllgor i gefnogi'r cais er mwyn cefnogi twristiaeth a'r economi yn Sir Benfro, yn ogystal â chaniatáu dros 16,000 o ymwelwyr fesul blwyddyn i barhau i fwynhau'r rhyddid a'r hwyl fforddiadwy oedd yn cael ei ddarparu yn y gwersyll.

Holodd yr Aelodau sut y byddai gwersyllwyr yn cael eu rhybuddio bod yna berygl o lifogydd ac atebodd Mr Harris bod y gwersyll yn delio â llifogydd o'r afon yn hytrach na'r môr, a'i fod wedi cofrestru gyda'r gwasanaeth rhybuddio llifogydd, a'i fod yn medru dadansoddi'r wybodaeth a symud pobl mewn da bryd i safleoedd y tu hwnt i'r parth llifogydd; roedd yn amcangyfrif bod 60% o'r gwersyll oddi fewn i'r parth llifogydd. Ychwanegodd bod llifogydd yn digwydd rhwng misoedd Tachwedd a Chwefror pan na fyddai gwersyllwyr yn debygol o fod ar y safle. Nododd bod 120 o unedau wedi'u caniatáu ar y safle ond bod hyn wedi'i gyfyngu gan y drwydded ar gyfer y cyfleusterau oedd ar gael, yn hytrach nag o ganlyniad i'r dystysgrif cyfreithlondeb.

Roedd nifer o'r Aelodau o'r farn y byddai cymhennu'r safle trwy osod adeilad arall yn lle'r un presennol, a gwaredu'r carafanau oedd heb eu hawdurdodi, yn welliant yn ogystal â bod o fudd i'r economi lleol ac yn darparu llety fforddiadwy i ymwelwyr. Ond roedd eraill yn ystyried, er bod dyluniad y cynnig wedi'i wella, byddai'n dal i gael effaith gweledol oherwydd ei faint, a nodwyd y byddai lluniau yn dangos yr adeilad oddi fewn i'r tirlun wedi bod o gymorth i benderfynu. Roedden nhw hefyd yn anesmwyth ynghylch cefnogi adeilad newydd pan nad oedd yn sicr pa mor hir fyddai'r busnes ei hun yn debygol o barhau o ganlyniad i'w leoliad ar barth llifogydd.

Ar gynnig Dr Hancock wedi'i eilio gan Dr Heath Davies rhoddwyd argymhelliad y swyddog i wrthod i bleidlais. Cafodd y cynnig ei gario.

**Penderfyniad: Gwrthod y cais am y rhesymau canlynol:**

1. Mae'r cais yn cynrychioli ffurf o ddatblygiad anghynaladwy a allai arwain at ddwysedd defnydd oddi fewn i barth llifogydd diffiniedig, yn groes i egwyddorion PCC12 paragraff 1.2, 2.5 (buddiant tymor hir), mae hefyd yn fwy o faint na'r adeiladau awdurdodedig presennol ar y safle a byddai felly yn groes i ofynion Polisi 37 (Adleoli ac ail-osod datblygiad (heblaw am breswyl) wedi'i effeithio gan newid arfordirol) a Pholisi 35 (Datblygiad yn yr ardal Rheoli Newid Arfordirol).

2. Oherwydd ei faint, dyluniad a'i leoliad amlwg ystyrir y byddai'r cynnig hefyd yn debygol o arwain at ddatblygiad fyddai'n weledol ymwthiol, a fyddai'n niweidiol i nodweddion arbennig gan gynnwys cymeriad tirluniol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn y lleoliad hwn. Mae hyn yn groes i ddarpariaeth Polisi 8 (Nodweddion Arbennig), Polisi 14 (Cadwraeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro), Polisi 29 (Dylunio Cynaliadwy), Polisi 30 (Mwynder) a Pholisi 42 (Cyfleusterau Safleoedd Gwersylla, Cabanau a Charafanau). Doedd dim digon o wybodaeth wedi'i ddarparu ynghylch tirweddu er mwyn darparu sicrwydd y byddai'r cynnig yn cydweddu'n dderbyniol neu yn hyrwyddo'r darn o dir yn y lleoliad hwn (yn groes i anghenion Polisi 14 (Cadwraeth a Hyrwyddo Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro) a'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar Ddylunio Cynaliadwy.

(b) Cyfeirnod: NP/24/0454/FUL
Cynnig: Newid defnydd o uned storio bad achub i allfa bwyd-i-fynd (A1)
Lleoliad: Hen Storfa Bad Achub, Harbwr Dinbych-y-pysgod, Dinbych-y-pysgod

Adroddwyd bod y cais hwn yn gofyn am ganiatâd i newid defnydd o adeilad storio bad achub wedi'i leoli yn Harbwr Dinbych-y-pysgod i fod yn allfa bwyd-i-fynd oer Dosbarth A1. Ni fyddai unrhyw newidiadau allanol i'r adeilad heblaw am osod arwydd ffasgia a oedd yn destun cais caniatâd hysbyseb arwahan (Cofnod 6(c) cyfeir). Roedd y safle hwn wedi'i leoli oddi fewn i Ardal Gadwraeth ddynodedig Dinbych-y-pysgod.

Yn ystod y broses ymgynghori derbyniwyd gwrthwynebiadau wrth Swyddog Cadwraeth Adeiladau'r Awdurdod, Cyngor Tref Dinbych-y-pysgod a Chymdeithas Ddinesig Dinbych-y-pysgod. Rhoddwyd ystyriaeth ofalus i'r cynnig hwn, yn arbennig yng nghysylltiad cyd-destun y defnydd oddi fewn ardal yr Harbwr. Tra cydnabyddid y byddai'r defnydd arfaethedig yn cyflwyno elfen adwerthu i'r ardal hon o'r Harbwr, o ystyried pob dim, ystyriai swyddogion na fyddai niwed sylweddol yn cael ei achosi i gymeriad Harbwr Dinbych-y-pysgod o ganlyniad i'r datblygiad hwn, gan y byddai'r defnydd arfaethedig dim ond yn cymryd darn cymharol fach o ardal llawr, ac na fyddai'n gyrchfan ynddo'i hun, ond yn hytrach byddai'n dibynnu ar yr ôl-traed sy'n bodoli eisoes yn yr harbwr. Byddai hefyd yn

golygu y byddai yna ddefnydd yn cael ei wneud unwaith eto o adeilad gwag.

Nodwyd bod y cais hwn yn gwyro oddi ar y Cynllun Datblygu Lleol am ei fod yn cynnig defnydd adwerthu y tu allan i’r ardal adwerthu fel roedd wedi’i diffinio, ond, doedd maint a natur y defnydd adwerthu oedd yn cael ei gynnig ddim yn cael ei ystyried y math a fyddai’n cael effaith andwyol ar hierarchaeth adwerthu, oherwydd ei fod wedi’i leoli yn agos i ac oddi fewn ffiniau anheddiad Dinbych-y-pysgod. Ar y cyfan, roedd y cynnig yn cael ei ystyried yn dderbyniol, ac o’r herwydd, yr argymhelliad oedd rhoi caniatâd, pan fyddai’r rhybudd y wasg wedi dod i ben, ac ar yr amod na fyddai ystyriaethau perthnasol eraill yn cael eu codi o ganlyniad.

Yn y cyfarfod nododd y swyddog bod dau sylw ychwanegol wedi dod i law ers ysgrifennu’r adroddiad a rhoddodd grynodeb o’r prif bryderon a godwyd sef prinder biniau sbwriel, cyfleusterau tŷ bach, carthffosiaeth a draenio fel rhan o’r uned, ac nad oedd yna seddau cyhoeddus, a allai effeithio ar eiddo preifat, sŵn a gwyrdroi cydbwysedd yr hyn sydd yn digwydd yn y rhan yna o’r harbwr. Eglurwyd hefyd nad oedd goleuadau mewnol ychwanegol o dan ystyriaeth.

Cafodd amod ychwanegol ei argymell i’w gwneud yn ofynnol i ddarparu manylion llawn ynghylch cludo dŵr, storio, rheoli a chasglu i gael eu cyflwyno cyn dechrau ar y fenter.

O ystyried y gwrthwynebiad gan y Swyddog Cadwraeth Adeiladau gofynnodd yr Aelodau iddo amlinellu ei bryderon. Cynghorodd fod hwn yn achos eithaf anodd ei benderfynu am nad oedd yna fawr o effaith ar olwg yr Ardal Gadwraeth, am na fyddai’r adeilad a godwyd yn y 1970au yn cael ei newid, heblaw am yr arwydd, a’i fod yn teimlo y byddai’r cymeriad yn cael ei gadw am y byddai’r busnes yn weithredol yn ystod y dydd yn unig (gan nodi’r amod arfaethedig i gyfyngu’r oriau o ddefnydd) a’i fod y tu fas i ardal hanfod yr harbwr, ac na ddylai amharu ar waith yr harbwr. Felly, o ystyried pob dim teimlai y byddai’r cais yn diogelu cymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth, ac yn dilyn trafodaethau gyda’r swyddog, ac o ystyried yr amodau a awgrymwyd, roedd erbyn hyn yn fodlon o ran y cais.

Eglurodd y swyddogion hefyd nad oedd gan yr adeilad fynediad annibynnol i ddraenio, mai’r defnydd fyddai ar gyfer gwerthu bwydydd oer yn unig – doedd yna ddim seddau na defnydd caffi yn cael ei gynnig a bod yr adeilad ar hyn o bryd yn wag.

Y siaradwr cyntaf oedd Alistair Mackay, yn siarad ar ran Clwb Hwylio Dinbych-y-pysgod, Cymdeithas Defnyddwyr Harbwr Dinbych-y-pysgod ac eiddo gerllaw. Eu prif bryder oedd y gwrthdaro rhwng cwsmeriaid ac eraill fyddai’n defnyddio’r harbwr i dywys eu badau neu eu llwytho/dadlwytho

o’r llithrfa oedd y tu blaen i’r eiddo ac ar adegau yn brysur.  Nododd fod hyn yn gwaethygu pan fyddai cerbydau yn teithio i ac o draeth y gogledd i’r harbwr, ac yn mynd heibio’r dagfa, ac roedd deiliaid eiddo gerllaw wedi mynegi pryderon ynghylch casglu dŵr gwastraff. Nododd Mr Mackay nad oedd adroddiad y swyddogion yn delio â materion tagfeydd a doedd e ddim yn derbyn y byddai’r busnes yn dibynnu ar yr ôl-troed presennol, ac ofnai y byddai pobl yn ffurfio rhes ar gyfer y busnes gan effeithio’n andwyol ar weithgareddau arferol defnyddwyr yr harbwr. Roedd yn siomedig bod Cyngor Sir Penfro wedi rhoi’r brydles i’r adeilad yn groes i’w amod ei hun y dylai’r defnydd o’r adeilad fod yn gydnaws â natur yr harbwr yn hytrach na chystadlu â busnesau sydd yno eisoes.

Nododd Mr Mackay bod y Cynllun Datblygu Lleol yn ceisio diogelu a hyrwyddo ardal yr harbwr, ac roedd yn amau’r gwyriad oddi ar y cynllun o ystyried lleoliad y datblygiad y tu fas i ganol adwerthu Dinbych-y-pysgod. Roedd e hefyd o’r farn bod yr adroddiad yn gamarweiniol am fod yr eiddo preswyl agosaf uwchben yn Stryd Crackwell, ac roedd o’r farn y byddai’r datblygiad yn effeithio ar bwy bynnag fyddai’n lletya yno.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod aeth Mr Mackay yn ei flaen i amlinellu ei bryderon o ran y defnydd o’r gilfach gerllaw’r eiddo yn cael ei ddefnyddio gan gwsmeriaid y caffi, a nododd bod nifer o ddefnyddwyr yr harbwr wedi dangos diddordeb mewn defnyddio’r gofod pan gafodd ei hysbysebu, ond cydnabu mai mater i’r Cyngor Sir oedd dyfarnu’r brydles. Roedd Mr Mackay hefyd yn amau’r cynnig o ddarparu bwydydd adar am fod bwydo adar mewn llefydd cyhoeddus yn achosi niwsans. Nododd y Cadeirydd bod y mater hwn wedi cael sylw yn yr amodau oedd wedi’u hargymell.

Gofynnodd Aelodau eraill ynghylch y defnydd o’r harbwr yn ystod Regata Dinbych-y-pysgod ac fe gynghorodd bod yna nifer o gystadlaethau clybiau hwylio, regata a phencampwriaethau yn yr harbwr rhwng mis Ebrill a’r Nadolig, a phryd hynny byddai rhwng 70 - 100 o fadau wedi’u storio ar hyd Llwybr y Gogledd neu ar y traeth. Nododd bod yna dagfeydd ar hyd y llithrfa ar yr adegau hynny, ei bod yn brysur ac y gallai fod yn beryglus i gerddwyr. Roedd yn hynod o bryderus na fyddai’r ymwelwyr hyn yn sylweddoli beth oedd yn digwydd yn ardal yr harbwr ac y bydden nhw’n dangos llai o gydymdeimlad tuag at weithgareddau’r harbwr.

Nododd y Rheolwr Rheoli Datblygu mewn ymateb i sylw Mr Mackay, ynghylch eiddo preswyl gerllaw yn Stryd Crackwell, nad oedd yr ystafell agosaf yn brif ystafell fyw ac, felly, roedd llai o bwys wedi’i roi ar hynny.

Y siaradwr nesaf oedd yr ymgeisydd, Ruby Goodrick. Esboniodd bod yr hen storfa wedi bod yn wag ers dwy flynedd ac roedd yn credu y byddai ei ddefnyddio unwaith eto yn hyrwyddo’r harbwr. Byddai’n gwneud yn siŵr

na fyddai yna unrhyw niwed i enw da lleoliad oedd yn annwyl i lawer ac na fyddai yna unrhyw newidiadau allanol heblaw am yr arwydd bychan. O ran y tu fewn ni fyddai unrhyw oleuni ymwthiol ac roedd yn fwriad i greu ystafell aros sylweddol ei maint er mwyn osgoi rhesi o gwsmeriaid y tu fas.

Cynghorodd Ms Goodrick y byddai mynediad cerbydau i'r fan wedi'i gyfyngu ac nad oedd yn bosib gyrru heibio. Esboniodd ei bod wedi dilyn yr holl gamau angenrheidiol gan gynnwys chwennych cyngor cynllunio rhagblaen a chyflawni asesiad perygl llifogydd. Mewn ymateb i'r pryderon a fynegwyd ynghylch oriau agor (yn wreiddiol 10 y bore - 10 yr hwyr er mwyn caniatáu agor yn ystod yr achlysuron arbennig yn yr haf), dywedodd ei bod yn ddigon parod i addasu'r oriau.

Nododd y byddai'r busnes yn cyfrannu at yr economi lleol ac yn darparu cyfleon gwaith, yn creu busnes i gwmni cludo gwastraff lleol ac yn defnyddio cynhwysion lleol ffres yn ogystal â choffi o ansawdd. Rhagwelid mai'r mwyafrif o gwsmeriaid fyddai pobl yn cerdded eu cŵn ac ymwelwyr ond byddai gwasanaeth cludfwyd dros y ffôn yn cael ei gynnig i fusnesau lleol. Terfynodd trwy ddweud ei bod wedi'i magu yn Ninbych-y-pysgod, pan oedd ei mam yn cadw busnes yno; roedd am roi bywyd o'r newydd i Truly Scrumptious a bod yn rhan o ddyfodol Dinbych-y-pysgod a bod yn rhan fechan o'r hyn oedd yn ei wneud yn le arbennig.

Holodd yr Aelodau ynghylch y mesur o ddŵr gwastraff a phryd a sut y byddai'n cael ei gasglu ac atebodd yr ymgeisydd y byddai'n cael ei gasglu mewn tanciau a'i gludo oddi yno mewn fan ar ddiwedd y dydd bob dydd. Cadarnhaodd y swyddog bod deddfwriaeth Iechyd Amgylcheddol yn berthnasol gan ychwanegu bod yna amod rheoli gwastraff wedi'i argymell. Nodwyd hefyd bod yna amod wedi'i argymell i atal defnydd o'r to, ac, os byddai'r Aelodau o'r un farn, byddai'n bosibl gosod amod dros dro o ddwy flynedd i ganiatáu profi ymarferoldeb y defnydd o'r safle.

Tra roedden nhw'n canmol menter ac ymroddiad yr ymgeisydd roedd yr Aelodau yn pryderu ynghylch storio a gwaredu dŵr gwastraff, tagfeydd yn ardal yr harbwr a lleoliad y busnes mewn amgylchedd harbwr lle fyddai defnydd morwrol yn fwy priodol. Cafodd cynnig i wrthod ei roi gerbron gan y Cynghorydd Hancock wedi'i eilio gan Dr Plummer. Y rhesymau a roddwyd dros fynd yn groes i argymhelliad y swyddogion oedd lleoliad y safle y tu fas i ganol adwerthu diffiniedig y dref, lleoli, dyluniad ac effaith ar nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol (polisïau 8,14,29 a 56).

Cynghorodd y Cyfreithiwr bod y Cyfarwyddwr wedi gorfod gadael y cyfarfod a'i fod wedi dirprwyo'r penderfyniad p'un a ddylid cyflwyno cyfnod o oedi neu beidio, pe bae'r Aelodau yn mynd yn groes i

argymhelliad y swyddogion, i'r Rheolwr Rheoli Datblygiad. Cynghorodd Ms Attrill na fyddai'n cyflwyno'r drefn.

Pan gafodd ei roi i bleidlais cafodd y cais ei wrthod.

**Penderfyniad: Gwrthod y cais am y rhesymau canlynol:**

1. **Mae'r lleoliad y tu fas i ffin y canol y dref ac mae'r defnydd arfaethedig yn y lleoliad hwn yn groes i Bolisi 56 (Adwerthu yn y Parc Cenedlaethol) a Pholisi 57 (Canolfannau Siopa Tref ac Ardal) o Gynllun Datblygu Lleol 2 Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.**

2. **Byddai'r cynnig yn anghydnaws i'r lleoliad a byddai'n niweidio nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol yn groes i Bolisi 8 (Nodweddion Arbennig), Polisi 14 (Cadwraeth a Hyrwyddo Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro) a Pholisi 29 (Dylunio Cynaliadwy) Cynllun Datblygu Lleol 2 Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro sydd wedi'i fabwysiadu.**

| (c) | | |
|---|---|---|
| | Cyfeirnod: | NP/24/0670/ADV |
| | Cynnig: | Arwydd ar fwrdd ar wal yr eiddo |
| | Lleoliad: | Hen Storfa Bad Achub, Harbwr Dinbych-y-pysgod, Penniless Cove, Dinbych-y-pysgod |

Adroddwyd bod y cais hwn ynn gofyn am ganiatâd i osod arwydd hysbysebu ar fwrdd ffasgia ar du blaen yr eiddo. Roedd y cais yn cael ei ystyried ar y cyd â chais cyfeirnod NP/24/0454/FUL (Cofnodion 6(b) cyfeir), a oedd ar gyfer newid defnydd cysylltiol o storio badau i gludfwyd oer. Byddai'r arwydd ffasgia yn cael ei osod yn lle'r hen arwydd ffasgia oedd i'w weld ar yr adeilad o hyd.

Roedd y cais wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu am fod y Cyngor Tref wedi gwrthwynebu'r cais, yn groes i argymhelliad y swyddog i gymeradwyo. Adroddwyd bod yna un gynrychiolaeth wedi'i dderbyn ers i'r adroddiad i'r Pwyllgor gael ei ysgrifennu, ond roedd y cynnwys yn ymwneud yn bennaf â'r newid defnydd o'r adeilad yn hytrach na'r arwydd arfaethedig. Eglurwyd hefyd nad oedd arwydd wedi'i oleuo o dan ystyriaeth.

Roedd swyddogion wedi dod i'r casgliad, ar ôl ystyried pob dim, na fyddai'r arwydd arfaethedig yn effeithio'n niweidiol ar nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol, mwynder, na diogelwch y cyhoedd. O'r herwydd, ystyriwyd ei fod yn unol â Pholisïau 1, 8, 14, 29 o'r CDLl2, PCC, a NCT 7, ac y dylai'r cais am ganiatâd hysbysebu cael ei gymeradwyo yn unol â gofynion Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion))

rheoliadau 1992 (wedi'u diwygio) a Nodyn Cynghori Technegol (TAN) 7 (Rheoli Hysbysebu Awyr Agored).

Er bod caniatâd cynllunio ar gyfer y newid defnydd o'r uned wedi'i wrthod (Cofnod 6(b) cyfeir), eglurodd y swyddog ei bod yn dal yn ofynnol penderfynu'r cais ar sail ei deilyngdod, am y byddai'r ymgeisydd efallai am barhau â'r mater trwy apelio yn erbyn y dyfarniad efallai. Pan ofynnwyd iddi cadarnhaodd yr ymgeisydd nad oedd am dynnu'r cais yn ôl.

Roedd rhai Aelodau yn pryderu pe bai caniatâd am arwydd yn cael ei roi gallai'r arwydd gael ei godi er bod y defnydd wedi'i wrthod. Cafodd cynnig i wrthod y cais ei gynnig gan Dr Heath-Davies a'i eilio gan y Cynghorydd Skyrme-Blackhall.

Cynghorodd y Cyfreithiwr yr Aelodau i ystyried cynnig o'r fath yn ofalus am ei fod o'r farn bod yna bosibilrwydd i'r ymgeisydd apelio yn erbyn penderfyniad o'r fath a allai arwain at ddyfarnu costau yn erbyn yr Awdurdod. Cynigiodd y Cynghorydd Clements ohirio'r cais er mwyn i swyddogion gael cyfle i astudio cyfraith achos ac ar ôl derbyn cyngor gan y Cyfreithiwr awgrymodd ddirprwyo'r penderfyniad i swyddogion, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor. Cafodd y cynnig i wrthod ei dynnu nôl ac eiliwyd y cynnig i ddirprwyo gan Dr Heath-Davies. Pan gafodd ei roi i bleidlais fe'i cariwyd. Sicrhawyd y Pwyllgor gan y swyddogion pe na bai'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd yn fodlon gyda'r hyn a awgrymwyd byddai'r cais yn cael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor drachefn i'w benderfynu.

**Penderfyniad: Dirprwyo'r cais i swyddogion ei benderfynu mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor.**

## 7. Apeliadau

Adroddodd yr Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu ar 11 o apeliadau (yn erbyn penderfyniadau cynllunio wnaed gan yr Awdurdod) oedd ar hyn o bryd yn nwylo Llywodraeth Cymru, gan fanylu ynghylch pob un o ran lle'r oedden nhw wedi cyrraedd yn y broses apelio erbyn hyn.

Adroddwyd bod yna benderfyniadau ynghylch NP/22/0675/MOD Cynnig gollwng Cytundeb Adran 106 – Fferm Penpant, Naw Ffynnon, Solfach a ganiatawyd, a NP/23/0246/FUL Newid defnydd o ardal golff byr ac ehangu ar gyfer gosod deg o gabanau/carafanau symudol hunangynhwysol pwrpasol, llefydd parcio ynghyd ag ychwanegiadau ecolegol – Maes Gwersylla a Charafanau,Tyddewi, a wrthodwyd.

Nododd y Cyfreithiwr bod erlyniad yr Awdurdod wedi bod yn llwyddiannus yn Ridgeway, Maenorbŷr trwy sicrhau gorfodeb i waredu'r mwyafrif o

eitemau oddi ar y safle a rhwystro pob dim arall rhag cael ei osod yno. Dyfarnwyd costau i'r Awdurdod hefyd. Ychwanegodd hefyd o ran yr Adolygiad Barnwrol yn Nhrewyddel bod gwrandawiad rhagarweiniol wedi'i gynnal ar y 13 a'r 14 o Fawrth pan gytunodd y barnwr y gellid dadlau ynghylch y pum sail yn yr achos, a fydd yn cael ei gynnal ar 17,18,19 o Fehefin.

**Nodwyd.**

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 9 Ebrill 2025 heb eu diwygio. |